Ysbïwr y twyni tywod Sand Dune Spy

TWYNI AR SYMUD | DYNAMIC DUNESCAPES

Mae **Twyni ar Symud** eisiau i ymwelwyr â'r twyni helpu i warchod cartrefi'r anifeiliaid sy'n byw yma. Mae angen tywod noeth a symudol ar lawer o anifeiliaid i oroesi a ffynnu. Felly, defnyddiwch eich medrau ditectif i adael i ni wybod beth ydych chi wedi cael hyd iddo!

Dynamic Dunescapes want dune visitors to help protect homes for animals who live here. Many animals need bare and moving sand to survive and thrive. So, use your detective skills to tell us what you find!

1 Edrychwch i fyny!

Treuliwch funud neu ddau'n edrych i fyny i'r awyr. Edrychwch ar y cymylau a'u gwylio'n mynd heibio. Anadlwch yn ddwfn ac efallai y byddwch yn ogleuo awel y môr.

Look up! Spend a few minutes looking into the sky. Find some clouds and take a moment to enjoy watching them pass. Take some deep breaths, you might smell sea air.

2 Welwch chi aderyn?

Rhowch gynnig ar ymestyn eich breichiau fel pe baech yn hedfan. Gelwir y ffordd unigryw y mae rhywogaethau o adar yn curo eu hadenydd wrth hedfan yn batrwm hedfan. Mae hyn a'u caneuon yn helpu i'w hadnabod. Pa synau allwch chi eu clywed?

See a bird? Try mimicking its flight. Stretch your arms out and pretend to fly. The unique way bird species flap their wings when they fly is a flight pattern. Their songs help identify them. What sounds can you hear?

A wyddoch chi bod rhai adar yn dodwy wyau mewn nythod ar y ddaear? Dyna pam yr ydym yn gofyn i deuluoedd gadw cŵn ar dennyn yn y tymor nythu.

Did you know some birds lay eggs in nests on the ground? This is why we ask families to keep dogs on a lead in nesting season.

3

Mae planhigion yn tyfu tuag at yr haul – **beth am ymestyn eich breichiau i fyny'n uchel tuag at yr awyr**? Mae'r degeirian y wenynen hardd yn edrych fel gwenynen. **Her ysbïwr:** pa rannau sy'n edrych fel gwenynen ee adenydd. Beth allwch chi ddod o hyd iddo heddiw? Tynnwch lun a'u gadael i dyfu.

Plants grow towards the sun - **stretch your arms up high to the sky.** This beautiful bee orchid mimics a bee. **Spy challenge:** spot what bits look like a bee e.g. wings. What can you find today? Take a photo record and leave them to grow.

App am ddim yw iNaturalist i'ch helpu chi i adnabod planhigion. Ymunwch â chymuned fawr. Efallai eu bod wedi postio rhywbeth i chi ddod o hyd iddo!

iNaturalist is a free app to help you identify plants. Join a large community. They may have posted something for you to find!

Ar rai twyni mae defaid, gwartheg a merlod. Rydym yn pori fel bod planhigion arbennig eraill yn gallu tyfu ac er mwyn i loÿnnod byw a phryfed allu cyrraedd eu bwyd yn hawdd.

Some dunes have sheep, cattle and ponies. We graze so that other special plants can grow and butterflies and insects can get to their food more easily.

Byddem wrth ein bodd yn eich gweld ar eich anturiaethau. Fe all teuluoedd rannu lluniau:

We would love to see you on your adventures. Families can share photos:

#dynamicdunes @dynamicdunes

dynamicdunescapes.co.uk

Cefnogir y project hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol gyda chyfraniadau gan bartneriaid y project.
This project is supported by the National Lottery Heritage Fund with contributions from the project partners.